

COFNODION CYNGOR CYMUNED DYFFRYN ARDUDWY A TALYBONT A GYNHALIWYD YN NEUADD GYMUNEDOL, DYFFRYN ARDUDWY AM 7.30 O'R GLOCH 02.02.16

2.1 YMDDIHEURIADAU

Cyng. , Sion Ifor Williams.

2.2 PRESENNOL

Cyng. Owen Gwilym Thomas (Cadeirydd), Edward Griffiths (Is-Gadeirydd), Edward Williams, John Ellis Williams, Catrin Edwards, Emrys Jones, Margretta Cartwright, Sian Edwards, John Ceri Evans, Eryl Jones-Williams.

2.3 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am y deyrnged amserol i'r diweddar Gyng. Geraint Lloyd Wynne yn cofnodion mis diwethaf. Datganodd y Cyng. Margretta Cartwright ei bod wedi gosod blodau yn y fas oedd wedi cael ei gosod ganddo ger y Gofeb fel yr oedd wedi addo. Eisiau datgan bod y swm o £200 a roddwyd er cof wedi cael ei drosglwyddo o gyfrif rhedegol y Cyngor i gyfrif y Cadeirydd.

2.4 COFNODION

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Ionawr 5ed fel rhai cywir.

2.5 MATERION YN CODI O'R COFNODION

Item 1.9 (K) datganodd y Clerc ei bod wedi derbyn ymateb gan Gorff Llywodraethol yr Ysgol Gynradd ynglyn

2.6 DATGAN DIDDORDEB

Datganodd y Cyng. Emrys Jones ddiddordeb yng nghais cynllunio maes carafanau Islawffordd, Talybont ac fe arwyddwyd dogfen Datgan Buddiant Personol ganddo.

Datganodd y Cyng. Eryl Jones Williams ddiddordeb yn item 1.9 (K) ynglyn a Llywodraethwr ysgol gynradd ac fe arwyddwyd dogfen Datgan Buddiant Personol ganddo.

2.7 MATERION CYNGOR GWYNEDD

Adroddodd y Cyng. Eryl Jones Williams ei fod ers y cyfarfod diwethaf wedi mynychu y canlynol:-

2.8 CEISIADAU CYNLLUNIO

Ailwampio strwythurol yn cynnwys gosod cladid allanol - 7 Bryn Awelon, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/568A)

Cefnogi y cais hwn.

Adeiladu pont droed tros Afon Ysgethin - Tir ger Dalar, Talybont (NP5/58/576)

Cefnogi y cais hwn ond bod pryder gan yr Aelodau ynglyn ar mynediad waith.

Ceisiadau Cynllunio a penderfyniad arnynt

Dymchwel sied, adeiladu estyniad, feranda, patio a garej arwahan a newidiadau i ffenestri dormer a twr grisiau - Glanmorfa, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/574) - caniatâu.

2.9 MATERION YN CODI

A Cynllun Busnes

Adroddwyd bod £22,082.45 wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd.

B Camerau CCTV

Awgrymodd y Cyng. Eryl Jones Williams y buasai yn well ail edrych lle i leoli y camerau uchod ar ol yr hyn oedd wedi digwydd yn y neuadd yn gynt yn y dydd.

C Neuadd Bentref

Cafwyd wybod bod pwyllgor o'r uchod yn cael ei gynnal ar yr 21ain o'r mis hwn ag hefyd eu bod wedi dod o hyd i drysorydd newydd sef Mr. Butterworth. Trafodwyd y ffaith bod angen aelod newydd ar y pwyllgor ond oedd neb yn barod i fod yn aelod o'r pwyllgor hwn.

D Gwefan y Cyngor

E Ethol Cynghorydd

Adroddodd y Clerc ei bod wedi gosod hysbyseb yn y ddau hysbysfwrdd ynglyn ar uchod a bod y dyddiad cau ar gyfer derbyn enwau gan Gyngor Gwynedd yn Gaernarfon ar y 5ed o Chwefror.

2.10 GOHEBIAETH

A GCGIC

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod ynglyn a hysbyseb yn hysbysu y Cyngor bod cyfarfod cymunedol o Grwp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth yn cael ei gynnal ym Mlaenau Ffestiniog ar y 9ed o'r mis hwn am 2.00 o'r gloch y prynhawn a 6.00 o gloch yr hwyr.

B Swyddfa Bost

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bod newidiadau yn mynd i fod i'r swyddfa bost yn y pentref ag y bydd yn agor am fwy o oriau sef o 6.30 o'r gloch y bore hyd at 6.00 o'r gloch y nos saith diwrnod yr wythnos.

C Cyngor Tref Porthmadog

Wedi derbyn e-bost gan Gadeirydd y Cyngor uchod yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor i fynychu cyfarfod cyhoeddus maen't wedi ei drefnu ar gyfer dydd Sadwrn yr 20ed o Chwefror am 11.00 o gloch y bore yn y Ganolfan ynglyn a gwrthwynebiad i adleoli swyddfa Ty Moelwyn o Borthmadog lawr i Gaerdydd.

D Mr. Iolo Owen

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn amlinellu beth oedd wedi bod yn digwydd yn yn ganolfan hamdden ers ei hagor ddechrau'r mis ag hefyd faint o grantiau oedd wedi cael eu derbyn ynghyd ar cymorth ariannol oedd wedi cael ei dderbyn gan Gynghorau Cymuned yr ardal.

E Cyngor Gwynedd - Adran Cyfreithiol

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod ynghyd ag atodiad ynglyn a Gorchymyn Gwahardd a Chyfyngu Aros a Mannau Parcio ar y Stryd 2016 er gwybodaeth i'r Cyngor.

F Cyngor Gwynedd - Adran Economi a Chymuned

Wedi cael llythyr gan yr uchod ynglyn a gwobrau traeth 2016 ag yn gofyn a fyddai y Cyngor yn fodlon talu y gost o £168.00 ynglyn a gwneud cais am y wobr hon i Cadw Cymru'n Daclus. Cytunwyd i dalu y gost yma.

G Cyngor Gwynedd - Cefnogaeth Gorfforaethol

Wedi cael llythyr gan yr uchod yn amlinellu rhestr o opsiynau sy'n cael eu hystyried a all fod o ddiddordeb i'r Cyngor Cymuned eu cymeryd drosodd ar ol mis Ebrill e.e. llwybrau cyhoeddus, toiledau cyhoeddus, biniau baw cwn a stryd.

2.11 ADRODDIAD Y TRYSORYDD

Adroddodd y Trysorydd bod £ 12,222.31 yn y cyfrif rhedegol, £1,319.20 yng nghyfrif y cae chwarae, £7,536.90 yn y cyfrif wrth gefn a £33.00 yng nghyfrif y Cadeirydd.

Anfonebau angen eu talu ers y cyfarfod diwethaf

Mrs Annwen Hughes	-	£147.00 (cyflog) + £178.78 costau = £325.78
Mr. M. J. Kerr	-	£380.00 - agor bedd y diweddar Mr. Glyn Edwards
Mr. J. Barrott	-	£40.00 - gwaredu tyrchod o'r fynwent
Mr. E. Davis	-	£100.00 - coeden nadolig

Derbyniadau ers y cyfarfod diwethaf

Pritchard a Griffiths - £560.00 - claddu y diweddar Mrs Agnes Roberts

Pritchard a Griffiths - £1,233.00 - claddu y diweddar Mr. Lesley Hiatt

Pritchard a Griffiths - £560.00 - claddu y diweddar Mr. Glyn Edwards

2.12 UNRHYW FATER ARALL

ARWYDDWYD.....Cadeirydd

DYDDIAD.....